

## Cofion a Chyfarchion

Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Dilys Vaughan (Saron) a gweddill y teulu yn dilyn marwolaeth ei chwaer, Mrs Janet Hughes. Gweddïwn y byddant oll yn adnabod cysur cwmni Duw a'i dangnefedd dros y dyddiau hyn.

Parhawn i gofio am Dilys Jones (Nantglyn) sy'n cael gofal yn yr Inffirmari ac yn yr un modd, cofiwn am Helen Pritchard (Llansannan) fu yn ôl yn Ysbyty Glan Clwyd am rai dyddiau, a hefyd Catrin Jones a Gruffydd Roberts (Llansannan) – hwythau hefyd wedi treulio ychydig ddyddiau yno. Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau iddynt am wellhad buan.

Cyflwynwn hefyd i ofal yr Arglwydd eraill o'n plith sydd heb fod yn dda ac eraill sy'n pryderu am anwyliaid. Gweddïwn y bydd pob un ohonynt yn adnabod gofal a chariad Duw yn eu hamgylchynu.

Llongyfarchiadau i Trebor a Glenys Roberts (Llansannan) ar achlysur dathlu 60 mlynedd o fywyd priodasol a phob bendith iddynt i'r dyfodol.

*Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma. Cysylltwch â Mair neu ysgrifennydd eich eglwys os ydych angen ffurflen ganiatâd arall, neu os byddwch, unrhyw bryd, yn dymuno newid y caniatâd a roddwyd gennych.*

## Arian Sasiwn Chwiorydd y Gogledd 2020

Bydd trysorydd eich eglwys yn falch o dderbyn unrhyw gyfraniadau tuag at Gasgliad Arbennig y Chwiorydd **erbyn diwedd Mawrth**, os gwelwch yn dda.

## Cywaith Ysgolion Sul Henaduriaeth Dyffryn Clwyd

Sylwch bod y dyddiad i chi fynd â chywaith eich Ysgol Sul i Gapel y Dyffryn, Llandyrnog wedi newid o nos Lun, Ebrill 6<sup>ed</sup> i **nos Fercher, Ebrill 22ain rhwng 6.30 ac 8.00 o'r gloch**.

## I ddod

- **OEDFA BORE'R GROGLITH I'R FRO** – Oedfa gymun yng Nghapel Llanefydd am 10.30 y bore.
- **OEDFA'R GROGLITH** yng Nghapel Cefn Berain am 7.00 yr hwyr gyda Mr Meurig Edwards, Bae Colwyn yn pregethu.
- **LLANW** – Bydd gŵyl Gristnogol Llanw yn cael ei chynnal yn Ninbych y Pysgod yn 2020 a hynny rhwng Ebrill 13<sup>eg</sup> – 17<sup>eg</sup>. Y prif siaradwr eleni fydd y Parch. Ddr Andras Iago. Ewch i'r wefan [www.llanw.org](http://www.llanw.org) i archebu ac/neu am fwy o fanylion.
- **SASIWN CHWIORYDD Y GOGLEDD** yng Nghapel y Traeth, Cricieth dydd Iau, Mai 7<sup>fed</sup>. Mwy o fanylion i ddilyn.



## Llais Bro Aled

Mawrth 15<sup>fed</sup> a 22<sup>ain</sup>, 2020

DILYNWCH NI AR TWITTER:

@eglwysibroaled

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

Croeso cynnes i bawb ohonoch i'n hoedfaon ar draws Bro Aled heddiw. Ein gobaith a'n gweddi wrth ddod i addoli gyda'n gilydd yw profi Duw ar waith a chael golwg newydd ar yr Un sy'n cael ei ddisgrifio fel hyn yn Eiseia 40:28 'Oni wyddost, oni chlywaist? Duw tragwyddol yw'r Arglwydd a greodd gyrrau'r ddaear; ni ddiffygia ac ni flina, ac y mae ei ddeall yn anchwiliadwy.'

Rydym yn byw mewn cyfnod digon pryderus ar hyn o bryd, ac mae hynny'n wir i bobl ar draws y byd wrth i lywodraethau gwahanol gymryd camau i fynd i'r afael â lledaeniad y firws Covid-19. Gweddïwn am gysur a chefnogaeth i'r rhai sydd eisoes wedi cael eu heffeithio gan y salwch, ac ar yr un pryd, cyflwynwn yr holl staff meddygol a'r awdurdodau sydd â phenderfyniadau anodd i'w gwneud hefyd i'r Arglwydd.

I ni fel eglwysi, fel pawb arall yn y gymdeithas, bydd angen bod yn hyblyg gyda'n cynlluniau ac yn amyneddgar a doeth wrth i'r amgylchiadau newid o ddydd i ddydd. Rydym am barhau i ddangos gofal a chariad tuag ein cyd-aelodau a'n cymdogion gan fod yn sensitif i'r anghenion dyrys fydd yn codi yn y cyfnod hwn. Ac yng nghanol yr ansicrwydd a'r cwestiynau ynglŷn â beth sy'n debygol o ddigwydd nesaf dylem gael ein cysuro wrth sylweddoli nad yw'r darlun mawr wedi newid i'r Cristion. Wrth wynebu pob math o amgylchiadau (da a drwg), byddwn yn byw yn ddyddiol mewn anwybodaeth o'r hyn fydd yn digwydd nesaf i ni. Mae hynny'n wir gan mai nid ni yw'r Creawdwr, ond pobl wedi'u creu i ddiybnu ar eu Creawdwr ydym. Felly gallwn wynebu'r dyfodol nad ydym yn siŵr ohono heb fynd i banig trwy gydnabod ein gwendid a'n cyfyngiadau ac ymddiried ein hunain i'r Duw sy'n 'mesur ein cerdded a'n gorffwys ac yn gyfarwydd â'n holl ffyrdd.' (Salm 139:3)

Ac yn fwy na hynny hyd yn oed, mae gennym addewidion bendigedig yn y Gair i'n cymell yn ein ffydd. Lle'r ydym ni'n methu gweld synnwyr mewn pethau ac yn pryderu, cofiwn sut y dysgodd Iesu ei ddisgyblion: 'y mae eich Tad nefol yn gwybod fod arnoch angen y rhain i gyd. Ond ceiswch yn gyntaf deyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef, a rhoir y pethau hyn i gyd yn ychwaneg i chi.' (Mathew 6:32-33)

Diolchwn heddiw fel erioed fod yr Arglwydd yn teyrnasu, ac oherwydd buddugoliaeth fawr y Groes nad yw'r afiechyd hwn, nag unrhyw beth arall yn gallu ein gwahanu ni oddi wrth gariad Duw yng Nghrist Iesu ein Harglwydd. (Rhufeiniaid 8:39)

*Rhodri*

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 15<sup>fed</sup> ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Rhodri a bydd Gwion Dafydd yn pregethu.
- Mawrth – 17<sup>eg</sup> ➤ **Cyfarfod Chwiorydd Bro Aled** yng Nghapel Cefn Meiriadog am 7.30 yng nghwmni Heledd Iago fydd yn siarad am waith 'Baby Basics Dyffryn Clwyd'. Bydd casgliad y noson yn cael ei roi tuag at waith yr elusen.
- Iau – 19<sup>eg</sup> ➤ **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
- Gwener – 20<sup>fed</sup> ➤ **NI FYDD Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod heno.
- Sul nesaf – 22<sup>ain</sup> ➤ **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.00.
- Mercher – 25<sup>ain</sup> ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy a bydd Rhodri yn pregethu.
- Iau – 26<sup>ain</sup> ➤ **Torri Syched** – Bydd y grwpiau tai yn cyfarfod am 7.30.
- Sul canlynol – 29<sup>ain</sup> ➤ **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- Sul canlynol – 29<sup>ain</sup> ➤ **Cwrdd Chwarter Cyfundeb Gorllewin Dinbych a Fflint** yn cyfarfod yng Nghapel Lôn Swan, Dinbych am 7.00 gyda Nerys Siddall o Ganolfan Byd Mary Jones yn annerch.
- Sul canlynol – 29<sup>ain</sup> ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams a bydd Rhodri yn pregethu.

### Llanefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes

- Sul yma – 15<sup>fed</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa deulu yn Henllan am 9.30 a bydd y casgliad yn cael ei gyfrannu i Hosbis San Cyndeyrn. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.45.
- Gwener – 20<sup>fed</sup> ➤ Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd Rhodri yn arwain oedfa yno am 11.00.
- Sul nesaf – 22<sup>ain</sup> ➤ Cynhelir y Clwb Cinio yng Nghapel Llanefydd am 11.45. Yr enwau i'w cyflwyno i Eluned (540453) neu Carol (540320) **erbyn dydd Sul (15<sup>fed</sup>)**, os gwelwch yn dda. Croeso i bawb.
- Sul nesaf – 22<sup>ain</sup> ➤ Cynhelir Oedfa Deulu i'r Daith (Llanefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes) dan arweiniad Dr Owain Edwards yng Nghefn Berain am 10.30.
- Sul canlynol – 29<sup>ain</sup> ➤ Bydd Mr Dewi Williams yn arwain oedfa yn Groes am 9.30 a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 11.00.
- Sul canlynol – 29<sup>ain</sup> ➤ Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00. Bydd Mr Dewi Williams yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 11.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg.

### Llansannan, Cefn Meiriadog a Llanfair

- Sul yma – 15<sup>fed</sup> ➤ Bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa yn Llanfair am 9.30 a bydd Ysgol Sul yn Llanfair a Cefn Meiriadog am 11.00. Bydd dau aelod o'r Henaduriaeth yn cynnal pleidlais gudd ar ddechrau'r oedfa i ofyn a yw aelodau'r eglwys yn Llanfair yn awyddus i ethol blaenoriaid newydd.
- Mawrth – 17<sup>eg</sup> ➤ Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion yn Llansannan am 10.00 a bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa am 11.00.
- Mercher – 18<sup>fed</sup> ➤ Croeso i chi ddod am 'Baned a Sgwrs' yn Festri Llansannan o 1.00-3.00. Edrychwn ymlaen i gael cwmni Alwyn Williams fydd yn sgwrsio am fyd natur mynydd Hiraethog.
- Sul nesaf – 22<sup>ain</sup> ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (15<sup>fed</sup>)**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 22<sup>ain</sup> ➤ Bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa yn Llansannan am 9.30 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion am 10.30.
- Mercher – 25<sup>ain</sup> ➤ Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.00 a bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa yno am 11.00.
- Sul canlynol – 29<sup>ain</sup> ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (22<sup>ain</sup>)**, os gwelwch yn dda.
- Sul canlynol – 29<sup>ain</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Llanfair am 9.30 a bydd Ysgol Sul yn Llanfair ac yng Nghefn Meiriadog am 11.00.
- Sul canlynol – 29<sup>ain</sup> ➤ Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion yn Llansannan am 10.00 a bydd Rhodri yn arwain oedfa am 11.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg.

### Peniel, Saron a Nantglyn

- Sul yma – 15<sup>fed</sup> ➤ Bydd Dafydd Timothy yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00.
- Sul nesaf – 22<sup>ain</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac yn Nantglyn am 2.00.
- Sul canlynol – 29<sup>ain</sup> ➤ Bydd y Parch. Gwyndaf Jones yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00.

### Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (25<sup>ain</sup>), os gwelwch yn dda.